## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (LLANDEILO I GAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd ac er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chynnwys rhag ofn y bydd angen cau'r ffordd i wneud gwaith cynnal a chadw. Yn yr achosion hynny, mae'r ffordd yn debygol o gael ei chau fesul rhan, a chodir arwyddion i roi hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw achosion o gau'r ffordd cyn i'r gwaith ddechrau. Yn ystod yr adegau hynny, cynhelir mynediad i eiddo lleol.

ii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darnau o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

iii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darn o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 30 Gorffennaf 2021. Disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro fod yn weithredol, yn ôl yr angen, o 00:01 o'r gloch ar 30 Gorffennaf 2021 am 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (LLANDEILO TO CARMARTHEN, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users and to undertake works on or near the A40 trunk road between Llandeilo and Carmarthen, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A40 described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route is also described therein.

This provision is included as a contingency should the need arise to close the road to undertake maintenance works. In those instances, the road is likely to be closed in sections and notice of any closure will be signed in advance of the works. During these times, access will be maintained to local properties.

ii. impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A40 described in Schedule 2 to this Notice;

iii. impose a 10 mph speed limit on the length of the A40 described in Schedule 3 to this Notice.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 30 July 2021. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate, as and when required, from 00:01 hours on 30 July 2021 for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Llandeilo, Llandeilo hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin.

**Y llwybr arall**

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A483 tua'r de i Ffairfach, yr A476 tua'r de-orllewin i Cross Hands, yr A48 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Pensarn ar A40 tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Glangwili: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Llandeilo hyd at bwynt 75 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Abergwili.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Abergwili hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glangwili.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Abergwili hyd at bwynt 75 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Abergwili, gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol y gylchfan.

## SCHEDULE 1
## Temporary prohibition of vehicles

The length of the trunk road that extends from the western side of Llandeilo Roundabout, Llandeilo to the eastern side of Glangwili Roundabout, Carmarthen.

**Alternative route**

The alternative route for westbound vehicles is via the southbound A483 to Ffairfach, south-westbound A476 to Cross Hands, north-westbound A48 to Pensarn Roundabout and north-eastbound A40 to Glangwili Roundabout: vice versa for eastbound vehicles.

## SCHEDULE 2
## Temporary 40 mph or 10 mph speed limit & no overtaking

The length of the trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of Llandeilo Roundabout to a point 75 metres east of Abergwili Roundabout.

The length of the trunk road that extends from a point 75 metres west of Abergwili Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway of Glangwili Roundabout.

## SCHEDULE 3
## Temporary 10 mph speed limit & no overtaking

The length of the trunk road that extends from a point 75 metres east of Abergwili Roundabout to a point 75 metres west of Abergwili Roundabout, including the main circulatory carriageway of the roundabout.